Cyfri'r Gost

Hyrwyddo alcohol yn anghyfrifol yn economi'r nos yng Nghymru



Alcohol Concern
Meddwl yn Gall am Alcohol

Alcohol Concern

Alcohol Concern yw'r asiantaeth genedlaethol ar gamddefnyddio alcohol, gan ymgyrchu dros bolisi alcohol effeithiol a gwell gwasanaethau i bobl sy'n byw gyda phroblemau sy'n ymwneud ag alcohol.

Ein gwaith yng Nghymru

Agorodd Alcohol Concern ei swyddfa yng Nghaerdydd ym mis Awst 2009. Mae Alcohol Concern Cymru yn canolbwyntio ar bolisi ac iechyd y cyhoedd, a gweithio er mwyn lleihau'r niwed sy'n deillio o alcohol.

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan Mark Leyshon ac Andrew Misell yn seiliedig ar ymchwil a wnaed ganddynt, ac fe'i hariannwyd gan Alcohol Concern. Gwnaed y gwaith arolygu gan Research and Marketing Plus ym mis Tachwedd 2009.

Cyhoeddwyd gan
Alcohol Concern, 64 Leman Street, Llundain, E1 8EU. Ffôn: 020 7264 0510, Ffacs: 020 7488 9213,
E-bost: contact@alcoholconcern.org.uk
Gwefan: www.alcoholconcern.org.uk

Ar ran
Alcohol Concern Cymru, Sophia House, 28 Cathedral Road, Caerdydd, CF11 9LJ
Ffôn: 029 2066 0248, Ffacs: 029 2066 0249,
E-bost: acwales@alcoholconcern.org.uk

Hawlfraint: Alcohol Concern Ionawr 2010. Cedwir pob hawl. Ni ellir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adalw, na'i throsglwyddo drwy unrhyw ddull heb ganiatâd y cyhoeddwyr a deiliaid yr hawlfraint.

Mae Alcohol Concern yn elusen gofrestredig rhif 291705 ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant a gofrestrwyd yn Llundain rhif 1908221.

Cymerwyd y ffotograff ar y clawr o'r casgliad 'Cardiff at Night', un o gyfres o ffotograffau a dynnwyd gan Maciej Dakowicz ar strydoedd canol prifddinas Cymru ar nosweithiau Gwener a Sadwrn dros gyfnod o bedair blynedd. Hawlfraint: Maciej Dakowicz.

Cynnwys

	Tudalen
Crynodeb gweithredol	4
Cyflwyniad	6
Camddefnyddio alcohol yng Nghymru	7
Trwyddedu, iechyd y cyhoedd ac economi'r nos	8
Rheoli economi'r nos yng Nghymru – enghreifftiau o arfer arloesol	11
Hyrwyddo alcohol yn anghyfrifol yng Nghymru – arolwg o dair tref/dinas	13
Casgliadau ac argymhellion	19

Crynodeb gweithredol

Mae ymgyrchoedd hyrwyddo alcohol anghyfrifol mewn tafarnau, barrau a chlybiau yn cyfrannu at orddefnydd o alcohol ymhlith y cyhoedd, gan arwain at droseddu ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol, a chanlyniadau iechyd andwyol. Maent yn meithrin diwylliant yfed anniogel ac mae angen cymryd camau dewr yn awr i leihau yfed niweidiol ac osgoi marwolaethau y gellir eu hatal.

Mae Alcohol Concern wedi bod yn ymchwilio i ba mor gyffredin yw ymgyrchoedd hyrwyddo alcohol yn economi'r nos yng Nghymru. Comisiynwyd arolwg ciplun mewn tri lleoliad yng Nghymru - sef Casnewydd, Abertawe a Wrecsam - gan arolygu cyfanswm o 43 o safleoedd trwyddedig un nos Wener ym mis Tachwedd 2009. Casglwyd data ar natur a graddau'r cyfryw ymgyrchoedd hyrwyddo, prisiau'r diodydd alcoholig a di-alcohol rhataf, ac unrhyw negeseuon hybu iechyd/yfed synhwyrol a oedd yn cael eu harddangos ym mhob safle.

Canfu ein harolwg fod tua hanner y safleoedd yn cynnal rhyw fath o ymgyrch hyrwyddo diodydd alcohol. Mae Alcohol Concern o'r farn bod nifer o'r ymgyrchoedd hyn, megis cynnig tair diod am bris un a chodi un tâl penodedig sy'n golygu bod pob diod ar ôl hynny am ddim yn arbennig o anghyfrifol. Mae'r cynigion hyn yn annog pobl i yfed llawer o alcohol mewn cyfnod byr o amser, ac maent yn cynnig cymhelliant ariannol i yfed mwy nag a fwriadwyd. Ar ben hynny, cafwyd bod prisiau diodydd unigol yn ddigon isel i beri pryder mewn llawer o achosion: roedd pedwar safle o leiaf yn cynnig peintiau am gyn lleied â £1, roedd hyn mewn rhai achosion yn llai na phris isaf y diodydd ysgafn a oedd ar gael; roedd 12 safle yn cynnig gwirodydd, weithiau mewn mesurau dwbl, am £1 yn unig. Am y prisiau hyn, gallai merch yfed mwy na dwywaith gymaint o alcohol â'r hyn a argymhellir bob dydd - sef y diffiniad arferol o bŵl o oryfed (*binge*) - am £3 yn unig, a gallai dyn wneud yr un peth am gyn lleied â £4.

Mae Alcohol Concern yn gwneud yr argymhellion canlynol a fydd yn gwneud tipyn, yn ein barn ni, i fynd i'r afael â'r materion a nodir yn yr adroddiad hwn:

Argymhelliad 1

Gan gydnabod bod y cynnydd yn y camddefnydd o alcohol yn broblem iechyd y cyhoedd, ac er mwyn galluogi awdurdodau trwyddedu i roi sylw priodol i'r mater hwn, mae angen nodi diogelu a gwella anghenion iechyd y cyhoedd fel pumed amcan yn Neddf Trwyddedu 2003. Bydd diwygio'r Ddeddf i ystyried lefelau yfed niweidiol mewn cymunedau lleol a lefelau cysylltiedig o forbidrwydd a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn rhoi cryn hwb i ymdrechion i leihau'r niwed hwn.

Argymhelliad 2

Mae arolwg Alcohol Concern wedi canfod bod ymgyrchoedd hyrwyddo alcohol anghyfrifol a allai annog pobl i yfed mwy yn eithaf cyffredin yn economi'r nos. Mae angen tynhau côd gorfodol y Swyddfa Gartref er mwyn rhwystro'n effeithiol ymgyrchoedd hyrwyddo o bob math sy'n hybu goryfed. Bydd hyn yn lleihau troseddau ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol, a niwed i iechyd cyhoeddus, a hefyd yn annog safleoedd i gystadlu ar sail cyfleusterau, adloniant ac awyrgylch yn hytrach na phris.

Argymhelliad 3

Am ei bod yn bosibl y bydd unrhyw gyfyngiadau pellach ar werthiannau mewndrwydded (*on-trade*) yn arwain at gynnydd mewn gwerthiannau all-drwydded (*off-trade*), a allai gynyddu lefelau yfed yn y cartref, mae angen pennu isafswm pris am uned o alcohol, sef 50c, ar gyfer diodydd a werthir mewn safleoedd mewndrwydded ac all-drwyddedd ledled Cymru a Lloegr. Byddai hyn yn dileu rhai o'r ymgyrchoedd hyrwyddo mwyaf anghyfrifol, gan gynnwys yr arfer o gynnig mwy na'r disgownt arferol ar ddiodydd mewn archfarchnadoedd a siopau diodydd, ond heb gael fawr ddim effaith ar gost yfed yn achos yfwyr cymedrol. Dengys ymchwil y byddai codi o leiaf 50c fesul uned yn cynyddu'r gost i yfwyr cymedrol 23c yr wythnos yn unig, ond gallai arbed £1.37 biliwn o ran costau gofal iechyd dros 10 mlynedd.[1] Yng Nghymru, byddai hyn yn cyfateb i arbedion gwerth £79 miliwn dros 10 mlynedd.

Argymhelliad 4

Nid yw'r trefniadau gwirfoddol sydd gennym ar hyn o bryd yn sicrhau bod gwybodaeth ddigonol am unedau ac iechyd i'w gweld lle y gwerthir alcohol. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru lobïo'r llywodraeth yn San Steffan i sefydlu ardoll ar y diwydiant diodydd i'w throsglwyddo i gorff hybu iechyd hollol annibynnol. Dylai'r corff hwn, a fyddai'n atebol i Lywodraeth Cynulliad Cymru, yr Adran Iechyd a'r Swyddfa Gartref, lunio'r negeseuon ac ymgyrchoedd iechyd ac ymwybyddiaeth y mae angen i ddefnyddwyr eu gweld. Dylid gorfodi'r diwydiant i ddangos y negeseuon hyn sy'n cynnwys gwybodaeth am iechyd ac unedau ar ei holl gynnyrch a ble bynnag y gwerthir alcohol. Bydd hyn yn helpu i wella dealltwriaeth defnyddwyr o unedau a rhoi cyngor cyson iddynt am lefelau yfed diogel, gan helpu i newid y diwylliant o yfed i feddwi.

Argymhelliad 5

Os na ellir gwneud rhagor yn fuan i ymdrin â hyrwyddo alcohol yn anghyfrifol ledled Cymru a Lloegr a phennu isafswm pris, mae Alcohol Concern o blaid cymryd camau i ddatganoli'r pwerau angenrheidiol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cyflwyniad

Mae'r defnydd o alcohol yn y DU wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y 70 mlynedd diwethaf. Cydnabyddir yn eang y problemau sy'n gysylltiedig â gorddefnyddio alcohol a goryfed mewn pyliau (*binge-drinking*), ac yn enwedig y canlyniadau iechyd a chymdeithasol andwyol.[2] Mae'r cynnydd yn y defnydd o alcohol wedi cyd-fynd â llacio deddfau trwyddedu a gostyngiad ym mhris gwirioneddol alcohol o gymharu ag incwm cyfartalog.[3] Mae ymchwil wedi dangos bod cysylltiad pendant rhwng y ffaith bod alcohol yn dod yn fwyfwy fforddiadwy a'r defnydd cynyddol ohono. Yn fyr, wrth i bris alcohol ostwng yn y DU, mae'r defnydd o alcohol wedi cynyddu,[4] gan arwain at gynnydd cyfatebol mewn amrywiaeth o broblemau iechyd.[5] Mae hefyd yn destun pryder bod cysylltiad wedi'i nodi rhwng pris alcohol a lefelau niwed sy'n gysylltiedig â thrais.[6]

Mae gweithgarwch hysbysebu a hyrwyddo alcohol hefyd wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y degawdau diwethaf.[7] Mae llawer o'r gweithgarwch hwn wedi'i arwain gan fanwerthwyr all-drwydded, yn enwedig y prif archfarchnadoedd. Fodd bynnag, mae cynlluniau hyrwyddo mewn tafarnau, barrau a chlybiau (a elwir gyda'i gilydd yn safleoedd mewndrwydded neu *on-trade*) hefyd wedi hen ymsefydlu. Yn aml yn wreiddiol byddai'r cyfryw gynlluniau ar ffurf 'oriau hapus', lle y cynigiai safleoedd trwyddedig ddiodydd alcoholig am bris gostyngol am gyfnod byr penodol. Ers hynny maent wedi datblygu i gynnwys amrywiaeth eang o ymgyrchoedd hyrwyddo, gan gynnwys 'oriau hapus' estynedig a chynigion megis 'prynwch un a chewch un am ddim' a 'phopeth y gallwch ei yfed', o ganlyniad i gystadlu cryf rhwng safleoedd trwyddedig sy'n ceisio cynnig y fargen orau er mwyn denu cwsmeriaid.

Mae pryder cynyddol ynghylch canlyniadau negyddol posibl y cyfryw ymgyrchoedd hyrwyddo, gan gynnwys goblygiadau iechyd a nifer gynyddol o achosion o drais gan bobl feddw.[8] Dengys astudiaethau sy'n edrych ar y defnydd o alcohol a safleoedd mewndrwydded fod cyfatebiaeth rhwng lefelau uwch o oryfed mewn pyliau a phrisiau is ac ymgyrchoedd hyrwyddo,[9] a bod ymgyrchoedd hyrwyddo a noddir gan farrau yn dylanwadu ar ddisgwyliadau a bwriadau cwsmeriaid i yfed mwy o alcohol.[10]

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar fater hyrwyddo diodydd mewn safleoedd mewndrwydded, gan ganolbwyntio'n benodol ar oblygiadau gwerthu a hyrwyddo alcohol yn anghyfrifol o ran iechyd y cyhoedd. Mae'n gwneud nifer o argymhellion heriol ar gyfer newid deddfwriaeth, polisi ac arfer, i annog a chynorthwyo'r cyhoedd i fabwysiadu diwylliant yfed mwy cytbwys ac iach.

Camddefnyddio alcohol yng Nghymru

Mae alcohol yn un o brif achosion ataliadwy salwch a marwolaeth a gellir priodoli tua 13,000 o dderbyniadau i'r ysbyty a tua 1,000 o farwolaethau bob blwyddyn yng Nghymru i alcohol.[11] Mae 45% o oedolion yng Nghymru yn cyfaddef eu bod yn yfed mwy na'r terfynau a argymhellir (2-3 uned y dydd yn achos merched a 3-4 uned y dydd yn achos dynion) ac mae 28% yn cyfaddef eu bod yn goryfed mewn pyliau (yfed o leiaf ddwywaith yr hyn a argymhellir bob dydd mewn cyfnod byr o amser).[12] Mae'n ddigon posibl bod y ffigurau hyn yn amcangyfrif rhy isel, ac erbyn hyn ystyrir bod y cynnydd yn y defnydd o alcohol yng Nghymru yn broblem genedlaethol.[13]

Amcangyfrifwyd bod niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yn costio £1 biliwn y flwyddyn i Gymru.[14] Gan gydnabod yr hyn sy'n amlwg yn broblem gynyddol, lansiwyd strategaeth camddefnyddio sylweddau Llywodraeth Cynulliad Cymru *Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed* yn 2008, a nododd agenda genedlaethol i leihau niwed a achosir gan alcohol, cyffuriau a sylweddau eraill.[15] Un o bedwar prif faes gweithredu'r strategaeth yw mynd i'r afael ag argaeledd amhriodol alcohol a'i effaith ar gymunedau yng Nghymru.

Ffigur 1:

Canran y bobl a ddywedodd eu bod wedi yfed mwy na'r canllawiau yn ystod yr wythnos diwethaf yng Nghymru yn ôl oedran a rhyw



Ffynhonnell: Arolwg Iechyd Cymru 2007

Trwyddedu, iechyd y cyhoedd ac economi'r nos

Daeth Deddf Trwyddedu 2003 i rym yng Nghymru a Lloegr ym mis Tachwedd 2005, ar adeg pan oedd y cyfryngau yn lleisio pryderon ynghylch goryfed mewn pyliau ym Mhrydain a thrais yn gysylltiedig ag alcohol yn economi'r nos.[16] Nod y Ddeddf oedd moderneiddio a symleiddio'r deddfau trwyddedu presennol drwy gyflwyno un drwydded safle ar gyfer darparu alcohol, adloniant a lluniaeth gyda'r nos, gan ddisodli'r chwe math o drwydded a oedd wedi bodoli cyn hynny,[17] a diddymu oriau trwyddedu sefydlog. O dan y ddeddfwriaeth newydd, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am drwyddedu o farnwyr trwyddedu yn eistedd mewn llysoedd ynadon i awdurdodau lleol, y disgwylir iddynt roi trwyddedau oni fyddai gwneud hynny yn groes i bedwar amcan trwyddedu'r Ddeddf. Y pedwar amcan yw:

- atal troseddau ac anhrefn
- atal niwsans cyhoeddus
- diogelu'r cyhoedd
- amddiffyn plant rhag niwed.

Un o nodau canolog y ddeddfwriaeth oedd "creu economïau'r hwyr a'r nos mwy diogel a mwy gwaraidd".[18] Fodd bynnag, mae dangosyddion cyffredinol yn awgrymu nad yw wedi cael fawr o effaith ar achosion o anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol hyd yn hyn, ac mai unig effaith y ddeddfwriaeth yw bod troseddau bellach yn cael eu cyflawni yn hwyrach yn y nos.[19] Yn wir, mae pobl sy'n mynd i dafarnau, barrau a chlybiau yn fwy tebygol o hyd o ddioddef trais na'r rhai nad ydynt yn mynd iddynt ac mae 17% o'r holl achosion o drais a gofnodir yn cael eu cyflawni yn y cyfryw leoliadau neu'n agos atynt.[20] Canfu arolwg a wnaed gan YouGov yn 2009 ar ran Alcohol Concern fod 45% o oedolion yng Nghymru yn ystyried bod canol eu tref yn lle peryglus gyda'r nos oherwydd problemau sy'n gysylltiedig ag alcohol.[21]

Ers pasio Deddf Trwyddedu 2003 mae adnoddau helaeth wedi parhau i gael eu cyfeirio at y gwaith o wella diogelwch a mynd i'r afael â throsedd ac anhrefn yn economi'r nos, megis plismona ychwanegol a theledu cylch cyfyng.[22] Ategwyd y rhain gan bwerau deddfwriaethol a chosbau pellach gan gynnwys Polisïau Effaith Gynyddol, sy'n caniatáu rhagdybiaeth yn erbyn rhoi trwyddedau i safleoedd newydd mewn ardal benodol, a Gorchmynion Gwahardd Yfed (DBOs) sy'n ei gwneud yn bosibl gwahardd unigolion penodol o safleoedd trwyddedig mewn mannau penodol.[23]

Ym mis Mai 2009, lansiodd y Swyddfa Gartref ymgynghoriad ar gôd ymarer newydd i fanwerthwyr alcohol yng Nghymru a Lloegr.[24] Ceisiodd yr ymgynghoriad hwn farn ar amrywiaeth o amodau trwyddedu gorfodol arfaethedig ledled Cymru a Lloegr i sicrhau bod alcohol yn cael ei werthu'n gyfrifol. Un o nodau'r côd arfaethedig oedd "cael gwared ag ymgyrchoedd hyrwyddo anghyfrifol sy'n arwain pobl i yfed mwy ac yn gyflymach nag y byddent yn ei wneud fel arall".[25]

Mae Alcohol Concern ar y cyfan yn cefnogi'r cyfryw gôd gorfodol cenedlaethol.[26] Dangosodd canlyniadau arolwg a gynhaliwyd yn 2009 gan yr elusen ar y cyd â Choleg Brenhinol y Ffisigwyr, y Coleg Nyrsio Brenhinol a Chyfadran Iechyd y Cyhoedd fod 77% o'r ymatebwyr o'r farn y dylid gwahardd ymgyrchoedd hyrwyddo lle y cynigir diodydd am brisiau gostyngol sy'n annog pobl i oryfed mewn safleoedd mewndrwydded.[27] Fodd bynnag, mae Alcohol Concern wedi nodi na fyddai'r côd, sydd i fod i gael ei gyflwyno yng Nghymru a Lloegr yn Ebrill 2010, yn atal rhai ymgyrchoedd hyrwyddo gwerthiant, er enghraifft y rhai lle y cynigir rhai cynhyrchion am bris gostyngol os prynir cynnyrch arall hefyd. Mae Alcohol Concern felly'n galw am gryfhau'r côd er mwyn rhwystro cynigion o bob math sy'n hybu goryfed.

Dysgu o fodel yr Alban

Mae'r angen am fynd i'r afael ag ymgyrchoedd hyrwyddo anghyfrifol wrth wraidd y system drwyddedu newydd yn yr Alban a ddaeth i rym ar 1 Medi 2009. Gwnaed newidiadau yn yr Alban mewn ymateb uniongyrchol i bryderon ynghylch problemau iechyd cynyddol sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Ymhlith nodweddion allweddol y system newydd yn yr Alban mae:

- Gwahardd ymgyrchoedd hyrwyddo diodydd anghyfrifol mewn safleoedd mewndrwydded. Diffinnir y rhain fel unrhyw ymgyrchoedd hyrwyddo sy'n:
  - ymwneud yn benodol â diodydd alcoholig sy'n debygol o apelio'n bennaf at bobl o dan 18 oed
  - cynnwys rhoi diodydd alcoholig am ddim neu am bris gostyngol pan brynir un neu ragor o ddiodydd
  - cynnwys rhoi mesur ychwanegol o ddiod am ddim neu am bris gostyngol pan brynir un neu ragor o fesurau
  - cynnwys rhoi diodydd alcohol diderfyn am dâl penodedig
  - annog unigolion i yfed mwy nag yr oeddent yn bwriadu ei wneud, neu yfed yn gyflym
  - seiliedig ar gryfder alcoholig unrhyw ddiod
  - cynnig alcohol fel gwobr (oni bai ei fod mewn cynhwysydd caeëdig ac yn cael ei yfed oddi ar y safle)
- Gwahardd gwerthu alcohol am brisiau gwahanol ar wahanol adegau o'r dydd. Rhaid i unrhyw amrywiad ym mhris diod bara am o leiaf 72 awr. Bydd hyn i bob pwrpas yn rhoi terfyn ar 'oriau hapus'.
- Rhaid i safleoedd mewndrwydded roi dŵr tap sy'n addas i'w yfed am ddim i unigolion ar gais, a rhaid i ddiodydd di-alcohol eraill fod ar gael am bris rhesymol.
- Cynnwys pumed amcan trwyddedu: 'diogelu a gwella iechyd y cyhoedd'.

Ystyriwyd hefyd posibilrwydd cyflwyno isafswm pris am uned o alcohol yn yr Alban.

Mae Alcohol Concern o blaid gwneud newidiadau i'r drefn drwyddedu yng Nghymru a Lloegr. Yn arbennig, fel yn yr Alban, byddai cynnwys amcan yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd yn y ddeddfwriaeth drwyddedu, a mynd ati i gasglu data iechyd lleol cadarn, yn galluogi awdurdodau lleol i nodi effaith y gwerthiannau alcohol ar iechyd trigolion lleol, gan roi iddynt ddull ychwanegol i wrthod trwyddedau unigol, eu tynnu'n ôl neu osod amodau arnynt, yn enwedig pan fo'n anodd cysylltu pryderon ynghylch troseddu ac anhrefn â safleoedd penodol. Mae Alcohol Concern yn dadlau y byddai diwygio Deddf Trwyddedu 2003 i ystyried lefelau yfed niweidiol mewn cymunedau lleol a lefelau cysylltiedig o forbidrwydd a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn rhoi cryn hwb i ymdrechion i wella iechyd drwy leihau'r defnydd o alcohol.

Ar y cyd ag Alcohol Focus Scotland, mae Alcohol Concern o blaid y cynigion a drafodwyd yn yr Alban i gyflwyno isafswm bris am alcohol yno. Amcangyfrifodd ymchwilwyr o Brifysgol Sheffield a gomisiynwyd gan Lywodraeth yr Alban y byddai isafswm pris o 40c yn sicrhau arbedion o £160 miliwn o ran costau gofal iechyd yn yr Alban dros ddeng mlynedd.[28] Daeth ymchwil debyg yn Lloegr a wnaed gan yr un tîm i'r casgliad y byddai yfwyr cymedrol ond yn talu 23c yn fwy yr wythnos pe bai isafswm pris o 50c yn cael ei osod ar bob uned o alcohol, ond y gallai hynny sicrhau arbedion o £1.37 biliwn o ran costau gofal iechyd dros 10 mlynedd.[29] Yng Nghymru, byddai hyn yn cyfateb i arbedion gwerth £79 miliwn dros 10 mlynedd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o blaid cynnwys amcan yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd yn y Ddeddf Trwyddedu ac mae wedi nodi ei bod o blaid "lleihau'r galw [am alcohol] drwy gynyddu trethi a/neu gyflwyno isafswm prisiau".[30] Nid yw deddfwriaeth yn y meysydd hyn wedi'i datganoli i Gymru ar hyn o bryd, ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi y bydd yn pwyso ar Weinidogion San Steffan i newid y sefyllfa hon neu geisio "sicrhau cytundeb ynghylch meysydd lle gellid amrywio deddfwriaeth Cymru a Lloegr yng Nghymru dan y pwerau creu mesurau sydd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006".[31] Os na ellir gwneud rhagor yn fuan i ymdrin â gwerthu alcohol yn anghyfrifol ledled Cymru a Lloegr, mae Alcohol Concern o blaid cymryd camau i ddatganoli'r pwerau angenrheidiol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rheoli economi'r nos yng Nghymru – enghreifftiau o arfer arloesol

Yng Nghymru, cafwyd nifer o fentrau cadarnhaol i geisio lleihau nifer y problemau sy'n gysylltiedig ag alcohol mewn trefi ac yng nghanol dinasoedd gyda'r nos. Un fenter a fu'n arbennig o lwyddiannus yw System Goleuadau Traffig Caerdydd, sy'n canolbwyntio ar y cysylltiad rhwng trais ac anafiadau a safleoedd trwyddedig penodol.

Astudiaeth Achos 1

System Goleuadau Traffig – Caerdydd

Mae gan Gaerdydd fwy o safleoedd trwyddededig fesul metr sgwâr yng nghanol y ddinas nag unrhyw leoliad arall yn y Deyrnas Unedig; ceir cyfanswm o 1,462 o safleoedd trwyddedig yng Nghaerdydd. Ar benwythnos arferol mae mwy na 40,000 o bobl yn cymryd rhan yn economi nos y ddinas.

Ym mis Medi 2005, lansiodd Heddlu De Cymru, mewn cydweithrediad â Fforwm Landlordiaid Caerdydd, ei System Goleuadau Traffig (TLS) fel adnodd gwybodaeth gynnar i nodi safleoedd trwyddedig sy'n achosi problemau. Mae'r TLS yn defnyddio protocol rhannu data rhwng Heddlu De Cymru ac Ysbyty Athrofaol Cymru (lle y ceir unig Uned Damweiniau ac Achosion Brys y ddinas) i gasglu gwybodaeth fanwl am pryd a ble y cafwyd achosion o drosedd ac anhrefn a'r math o droseddau a gyflawnwyd.

Mae staff yr ysbyty wedi'u hyfforddi i gael gwybod gan ddioddefwyr sydd wedi'u hanafu'n ddifrifol union leoliad y digwyddiad, yr amser a dyddiad y digwyddiad, y math o arf a ddefnyddiwyd, p'un a hysbyswyd yr heddlu o'r digwyddiad ac ym mha safle trwyddedig y cafodd y dioddefwr ei ddiod alcoholig olaf. Dadansoddir y data a gesglir gan Ddadansoddwr y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ac wedyn fe'i defnyddir i roi pwyntiau yn ymwneud â'r math o ddigwyddiad a gofnodwyd a pha mor ddifrifol ydoedd i bob safle. Dosberthir y safleoedd wedyn yn rhai coch (angen gweithredu ar unwaith), rhai melyn (rhaid eu monitro'n fanwl) neu rai gwyrdd (dim pryderon). Pennir swyddog trwyddedu penodol ar gyfer y safleoedd hynny yn y categori coch, sy'n ymweld â'r safle i lunio cynllun gweithredu a fydd yn ceisio gwella'r safle yn ddi-oed. Os bydd safle wedi'i ddosbarthu'n un coch am gryn dipyn o amser, mae'r Tasglu Troseddau Treisgar yn craffu ar y rhesymau a gellir cymryd camau gorfodi, gan gynnwys adolygiad o drwydded y safle gan Heddlu De Cymru.

Yn galonogol, mae'r fenter hon, ynghyd â nifer o ymyriadau cydategol eraill, wedi helpu i leihau nifer y digwyddiadau yn ymwneud ag alcohol sy'n gysylltiedig â safleoedd trwyddedig yng Nghaerdydd o 2,442 yn 2006/7 i 1,552 yn 2008/9.

Mae nifer o drefi a dinasoedd eraill yng Nghymru wedi rhoi cynlluniau ar waith i leihau anhrefn a gwella diogelwch personol yn economi'r nos. Yn 2008, er enghraifft, dyrannwyd arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i bedwar prosiect peilot yng Ngheredigion, Conwy a Sir Ddinbych, Pen-y-bont ar Ogwr a Sir Gaerfyrddin. Rhoddodd y prosiectau hyn nifer o fentrau cadarnhaol ar waith, gan gynnwys:

- swyddogion tacsis – sy'n rheoli ciwiau mewn safleoedd tacsis i atal pobl rhag dadlau a chwffio â'i gilydd
- bugeiliaid stryd neu angylion stryd - yn aml gwirfoddolwyr o eglwysi lleol sy'n cynnig cymorth bugeiliol ar y stryd, ac a all ddosbarthu diodydd di-alcohol, a fflip-fflops i atal merched sydd wedi tynnu eu hesgidiau sodlau uchel rhag anafu eu traed
- cynlluniau 'bihafiwch neu cewch eich banio' (BOBB) – mentrau a arweinir gan dafarnwyr sy'n ceisio atal ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag yfed yng nghanol trefi.

Mae prosiectau fel y rhain yn canolbwyntio'n gyffredinol ar greu economïau nos diogelach a mwy deniadol, gan leihau troseddau sy'n gysylltiedig ag alcohol a chynyddu diogelwch personol cymaint â phosibl. Er bod hyn i'w ganmol, mae hefyd gyfle i ymchwilio ymhellach i fentrau arloesol sy'n ceisio mynd i'r afael yn benodol â goblygiadau ehangach goryfed yn economi'r nos o ran iechyd y cyhoedd, er enghraifft gwella dealltwriaeth y cyhoedd o unedau a chodi ymwybyddiaeth o ganlyniadau iechyd posibl yfed mwy na'r canllawiau yn rheolaidd.

Yn ddiweddar cyflwynwyd cynllun arbennig o addawol yn Sir Benfro sy'n defnyddio technoleg ffonau symudol i roi gwybodaeth am iechyd i yfwyr pan fyddant allan mewn dau ganol tref a champws coleg lleol. Mae'r prosiect yn ceisio annog pobl i ystyried eu hymddygiad yfed.

Astudiaeth Achos 2

Ymgyrch Dignity – Sir Benfro

Lansiwyd ymgyrch Dignity ar y cyd gan Sir Benfro Ddiogelach, Her Iechyd Sir Benfro a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, ynghyd â Gencia Advertising, ym mis Hydref 2009. Mae'n ceisio rhoi cyngor a gwybodaeth iechyd i yfwyr ar nifer o faterion drwy Bluetooth ar eu ffonau symudol.

Mae'r prosiect yn targedu ymddygiad yfed ymhlith pobl ifanc gan ddefnyddio Bluetooth i drosglwyddo negeseuon fideo yn dangos pobl ifanc yn ymddwyn yn beryglus neu'n colli eu hurddas o ganlyniad i oryfed. Mewn treial o'r prosiect, lawrlwythodd tua 60% o'r gynulleidfa darged â ffonau addas o fewn cyrraedd y cynnwys a gynigiwyd iddynt. Dyma'r tro cyntaf i ymgyrch ymwybyddiaeth alcohol yn defnyddio'r dechnoleg hon gael ei chynnal yng Nghymru ac mae'n amlwg bod cryn le i ddatblygu yn y dyfodol.



Hyrwyddo alcohol yn anghyfrifol yng Nghymru – arolwg o dair tref/dinas

Er mwyn asesu i ba raddau y mae alcohol yn cael ei brisio a'i hyrwyddo'n anghyfrifol yn economi'r nos, comisiynodd Alcohol Concern arolwg ciplun mewn tri lleoliad yng Nghymru. Ymwelwyd â chyfanswm o 43 o safleoedd trwyddedig (tafarnau, barrau a chlybiau) yng nghanol Wrecsam, Casnewydd ac Abertawe. Dewiswyd canol trefi/dinasoedd am fod y rhain yn ardaloedd lle y ceir nifer fawr o safleoedd trwyddedig gyda'i gilydd fel arfer, gan ddenu cryn nifer o bobl yn rheolaidd i economi'r nos, yn enwedig ar y penwythnos.

Cynhaliwyd yr arolwg nos Wener 13 Tachwedd 2009 rhwng 5pm a 11pm. Ym mhob lleoliad bu dau ymchwilydd, 18 oed neu drosodd, yn casglu data ar:

- y nifer a'r math o ymgyrchoedd hyrwyddo alcohol ym mhob safle ac yn agos ato, gan gynnwys taflenni a chardiau disgownt
- prisiau'r diodydd alcoholig a di-alcohol rhataf (naill ai gan staff y safle neu o fwydlen y bar)
- unrhyw negeseuon hybu iechyd / yfed yn synhwyrol (er enghraifft, 'yfwch yn gyfrifol' a oedd yn cael eu harddangos).

Yn dilyn patrwm yfed arferol yfwyr gyda'r nos, ymwelwyd â thafarnau a barrau yn gynharach yn y nos ac wedyn clybiau nos yn ddiweddarach yn y nos. Ni chaniatawyd i'r ymchwilwyr yfed alcohol wrth gasglu data.

Er bod yr arolwg yn canolbwyntio ar dri lleoliad trefol penodol yng Nghymru, mae'n debyg bod y canlyniadau yn berthnasol i lawer o drefi a dinasoedd eraill ledled Cymru a Lloegr, yn enwedig o gofio bod llawer o'r safleoedd a arolygwyd yn rhan o gadwyni mawr â pholisïau prisio a hyrwyddo cenedlaethol.

Canfyddiadau'r arolwg

Crynodeb o'r canfyddiadau cyffredinol

Canfu'r arolwg fod llawer o safleoedd trwyddedig yn cynnal ymgyrchoedd hyrwyddo a oedd yn cymell unigolion i yfed mwy o alcohol:

- Cafwyd bod 21 o'r 43 o safleoedd (49%) a arolygwyd yn cynnal rhyw fath o ymgyrch i hyrwyddo diodydd alcoholig. Mewn cymhariaeth, dim ond pump (12%) a oedd yn cynnig prisiau gostyngol ar ddiodydd di-alcohol.
- Roedd yr ymgyrchoedd hyrwyddo yn cynnwys 'oriau hapus' (y parodd pob un ohonynt am fwy nag awr), diodydd hanner pris, a chynigion megis prynu mesur dwbl o wirodydd am bris gostyngol, prynwch ddau wydraid o win a chewch weddill y botel am ddim, jygiau pedwar peint am £5, diodydd dethol am £1, dwy ddiod am bris un, a thair diod am bris un.
- Roedd gan ddau glwb nos gynigion hollgynhwysol, lle roedd diodydd alcoholig ar gael am ddim ar ôl talu ffi wrth y drws.
- Roedd o leiaf bedwar safle yn cynnig peintiau am gyn lleied â £1, a oedd yn aml yn llai na phris rhataf y diodydd ysgafn a oedd ar gael. Roedd 12 safle (28%) yn cynnig mesurau bach o wirodydd am £1, gan gynnwys tri safle a oedd yn cynnig mesurau dwbl o wirodydd am £1.
- Cafwyd nosweithiau thema mewn clybiau nos a oedd yn annog cwsmeriaid i feddwi a cholli arnynt eu hunain. Mewn modd tebyg, brandiwyd diodydd alcoholig fel '*shooters*' a '*slimers*'.
- Cafwyd nad oedd unrhyw negeseuon yfed yn synhwyrol yn cael eu harddangos mewn 17 o safleoedd (40%).
- Er nad oedd unrhyw dystiolaeth o gemau yfed wedi'u trefnu na bod y naill ryw na'r llall yn cael ei dargedu'n benodol, cafwyd cynigion hyrwyddo a oedd yn targedu myfyrwyr prifysgol yn benodol mewn cryn nifer o safleoedd.

Dengys y ffigurau hyn fod yr arfer o werthu alcohol am bris gostyngol mewn modd anghyfrifol yn gyffredin iawn mewn safleoedd mewndrwydded. Ceir isod ddadansoddiad manylach o'r canfyddiadau ym mhob un o'r tri lleoliad.

Abertawe

O'r 21 o leoliadau yn Abertawe a gynhwyswyd yn ein harolwg, cafwyd bod 11 (52%) yn cynnal rhyw fath o ymgyrch i hyrwyddo diodydd alcoholig. Nodwyd ymgyrchoedd hyrwyddo ym mhob un o'r tri math o safle a arolygwyd: tafarnau, barrau a chlybiau nos. Roedd pum safle yn hyrwyddo 'oriau hapus', er bod pob un o'r rhain yn para mwy nag awr mewn gwirionedd. Roedd pum safle yn targedu cynigion at fyfyrwyr prifysgol, er nad ar union noson yr arolwg. Ymhlith ymgyrchoedd hyrwyddo eraill a nodwyd roedd cynigion dwy ddiod am un a diodydd hanner pris, pedwar mesur o wirodydd am £10 a phedwar peint am £5. Gwahoddwyd cwsmeriaid yn y No Sign Bar yn Wind Street i brynu mesur dwbl o wirodydd am bris gostyngol.

Cafwyd bod prisiau diodydd unigol yn rhad iawn mewn rhai safleoedd trwyddedig. Roedd y Bank Statement yn cynnig poteli 330ml o lager Becks am 99c. Roedd tri safle arall yn cynnig peintiau o lager a seidr am £1. Yng nghlwb Oceana roedd cynigion dwy ddiod am un ar gael rhwng 5pm a 7pm, gyda'r peint rhataf o lager yn costio £1.80 a gwydraid 125ml o win yn costio £1.90. Roedd Reflex yn cynnig peint o seidr am £1, ac eto y ddiod ysgafn rataf yr oeddent yn ei chynnig oedd gwydraid 300ml o gola am £1.40.

Roedd pedwar safle trwyddedig yn Wind Street yn cynnig mesurau bach o wirodydd am £1. Roedd Idols yn cynnig 'olwyn ffawd' a ddefnyddid yn rheolaidd yn ystod y nos i ddatgelu hyrwyddiadau yn cynnig diodydd am brisiau gostyngol, ac arwyddion brandio '*plastered everywhere*'. Ar yr un pryd, roedd clwb nos Play yn cynnig noson hollgynhwysol lle mae cwsmeriaid yn talu £10 wrth y drws ac mae'r diodydd am ddim wedyn am weddill y nos.

Roedd Ice Bar yn cynnig peint am £1 a mesurau o wirodydd am £1, ac eto nid oedd unrhyw bosteri/negeseuon 'yfed yn synhwyrol' yn cael eu harddangos yno. Yn wir, nid oedd yr arolygwyr yn gallu gweld unrhyw negeseuon yfed yn synhwyrol mewn 12 o'r 21 o safleoedd trwyddedig (57%).

Tabl cryno Abertawe:

Safle	Peint rhataf £	Cwrw potel rhataf £	Gwydraid rhataf o win £	Mesur rhataf o wirodydd £	Diod ysgafn rataf £	Disgownt / cynnig ar gyfer diodydd alcohol?	Disgownt / cynnig ar gyfer diodydd ysgafn?	Neges yfed yn synhwyrol i'w gweld?
Bank Statement	1.99	0.99	2.10	1.59	0.60	Ie	Na	Na
Ice Bar	1.00	1.50	1.75	1.00	0.50	Ie	Na	Na
So Bar	2.90	2.00	2.25	1.25	0.90	Na	Na	Ie
Reflex	1.00	1.00	2.75	1.25	1.40	Na	Ie	Ie
Flares	2.00	1.80	2.00	1.00	0.50	Ie	Na	Ie
The Lounge	2.50	2.65	2.50	1.00	1.40	Na	Na	Na
Molokos	2.50	2.90	2.75	2.00	1.00	Na	Na	Na
La Parella	3.40	3.00	5.00	2.00	1.25	Na	Na	Na
Lava Lounge	2.95	3.00	3.95	2.00	2.00	Ie	Na	Na
Revolution	3.30	3.40	3.80	2.00	0.70	Ie	Ie	Ie
Oceana	1.80	2.10	1.90	1.95	0.40	Ie	Ie	Ie
Aspers	3.00	3.00	2.50	2.75	2.00	Na	Na	Na
Play	2.40	3.00	4.80	1.00	1.00	Ie	Na	Ie
Morgans	3.80	3.90	4.25	3.10	2.30	Na	Na	Na
Idols	1.00	1.50	1.50	1.00	0.40	Ie	Na	Na
Pump House	2.60	2.90	5.00	2.60	1.50	Na	Na	Ie
Adelphi	2.40	2.60	2.10	1.10	0.80	Na	Na	Ie
Pitcher Piano	2.10	2.60	2.20	1.80	1.00	Na	Ie	Na
Varsity	1.50	1.95	1.85	1.20	0.40	Ie	Na	Na
No Sign Bar	2.90	3.10	2.95	2.20	0.30	Ie	Na	Ie
Village Pub	2.40	2.85	4.80	2.60	1.50	Ie	Na	Na

Casnewydd

Dim ond nifer fach o ymgyrchoedd hyrwyddo alcohol a nodwyd gan ein harolwg yng Nghasnewydd. Er hynny, cafwyd bod prisiau diodydd unigol yn arbennig o rad mewn cryn nifer o'r 14 o safleoedd. Yn Reflex yn High Street er enghraifft, roedd y peint rhataf o lager ar werth am £1.75, 5c yn llai na'r ddiod ddi-alcohol rataf a oedd yn cael ei chynnig (gwydraid 330ml o gola). Yn yr un modd, cynigiwyd gweddill y botel am ddim i gwsmeriaid a brynai ddau wydraid o win yn y Breeze Club yn Cambrian Drive.

Roedd tri safle yn cynnig mesurau dwbl o wirodydd (50ml) am ddim ond £1. Mae mesur dwbl yn cyfateb i tua dwy uned o alcohol; felly roedd yn bosibl i ferched yfed dwywaith gymaint o alcohol â'r hyn a argymhellir bob dydd – sef y diffiniad arferol o bŵl o oryfed (*binge*) – am £3 yn unig, ac roedd dynion yn gallu gwneud yr un peth am £4.

Roedd cynigion wedi'u targedu hefyd ar gael. Er enghraifft, ar nos Fercher roedd diodydd yn cael eu cynnig i fyfyrwyr prifysgol a oedd yn ymweld â Reflex am £1 'drwy'r nos'. Roedd Escapade yn cynnig nosweithiau '*Fundamental*' bob nos Wener, lle y gwahoddid cwsmeriaid i '*go mental*' am dâl sefydlog o £10. Yn yr un modd, roedd Fire and Ice yn cynnig noson hollgynhwysol ar nos Wener, wedi'i dilyn gan gynnig tair diod am bris un drwy'r nos ar nos Sadwrn ar gyfer pob diod ac eithrio coctêls. Ar ben hynny, yn aml cafwyd bod y diodydd eu hunain wedi'u brandio: er enghraifft, roedd mesurau bach o wirodydd yn cael eu galw yn '*shooters*', yn '*iced nipple*' neu'n '*slimers*'.

Ar nodyn cadarnhaol canfu'r arolwg fod gan bob un o'r safleoedd o leiaf un neges yfed yn synhwyrol a oedd yn weladwy i'r arolygwyr, naill ai yn y toiledau, y tu ôl i'r barrau neu ar ffenestri/waliau.

Tabl cryno Casnewydd:

Safle	Peint rhataf £	Cwrw potel rhataf £	Gwydraid rhataf o win £	Mesur rhataf o wirodydd £	Diod ysgafn rataf £	Disgownt / cynnig ar gyfer diodydd alcohol?	Disgownt / cynnig ar gyfer diodydd ysgafn?	Neges yfed yn synhwyrol i'w gweld?
The Breeze Club	1.99	1.90	3.20	1.00	1.50	Ie	Na	Ie
Thru the Arch Club	1.99	1.90	3.20	1.00	1.50	Na	Na	Ie
Reflex	1.75	1.90	4.80	1.50	1.80	Na	Na	Ie
Escapade	2.80	2.00	3.50	2.50	2.00	Na	Na	Ie
Eternity	2.15	2.20	3.25	2.50	1.90	Na	Na	Ie
Windsor Castle	2.50	1.90	3.50	1.50	1.90	Na	Na	Ie
The Page	1.90	1.80	3.20	1.00	1.50	Ie	Na	Ie
Greyhound	1.99	2.59	3.79	1.80	1.80	Na	Na	Ie
Ye Olde Murenger	1.99	2.00	3.20	1.80	1.60	Na	Na	Ie
Newbridge Hotel	1.99	1.80	3.20	1.50	1.50	Na	Na	Ie
The Red Lion	1.99	1.90	3.20	1.50	1.50	Na	Na	Ie
The Lamb	2.80	1.90	3.20	2.30	1.90	Na	Na	Ie
John Wallace Linton	1.79	1.99	3.79	3.79	1.90	Na	Na	Ie
The Potter	1.99	2.20	3.20	1.80	1.80	Na	Ie	Ie

Wrecsam

Yn Wrecsam, cafwyd bod chwech o'r wyth (75%) o safleoedd a gynhwyswyd yn ein harolwg yn cynnig rhyw fath o ddisgownt am brynu alcohol, ac eto nid oedd yr un o'r rhain yn cynnig diodydd di-alcohol am brisiau gostyngol.

Roedd peintiau o lager Bass yn y Golden Lion ar y Stryd Fawr ar werth am £1. Mewn pedwar o'r safleoedd (50%) roedd yn bosibl prynu mesurau bach o wirodydd am ddim ond £1, er enghraifft y Groove Club yn Brooke Street, a oedd hefyd yn hyrwyddo cynigion dwy ddiod am bris un ar nos Sadwrn a thair am bris un ar nos Iau. Yn y Nag's Head, roedd cynigion ar ffurf platiau cwrw tri-am-un, prynwch ddau wydraid o win a chewch weddill y botel am ddim, a chyfle i droi mesur sengl o wirodydd yn ddwbl am £1 ychwanegol. Yn yr un modd roedd Lloyd's No. 1 bar yn cynnig mesur dwbl o wirodydd am £1 ychwanegol.

Yn olaf, canfu ein harolwg nad oedd unrhyw negeseuon 'yfwch yn synhwyrol' i'w gweld mewn pump o'r wyth safle (63%).

Tabl cryno Wrecsam:

Safle	Peint rhataf £	Cwrw potel rhataf £	Gwydraid rhataf o win £	Mesur rhataf o wirodydd £	Diod ysgafn rataf £	Disgownt / cynnig ar gyfer diodydd alcohol?	Disgownt / cynnig ar gyfer diodydd ysgafn?	Neges yfed yn synh-wyrol i'w gweld?
Ironworks	2.15	1.99	1.99	1.00	1.50	Ie	Na	Na
Lloyd's No. 1	1.49	1.39	1.49	1.50	1.49	Ie	Na	Na
One to Five	2.80	1.95	2.50	1.00	1.65	Ie	Na	Ie
Honky Tonks	2.05	1.50	2.50	1.00	1.50	Ie	Na	Na
Groove Club	2.00	2.80	2.60	1.00	1.00	Ie	Na	Na
Nag's Head	2.20	3.02	2.40	1.88	0.61	Ie	Na	Na
Wynnstay Arms	2.45	1.80	2.85	1.78	1.46	Ie	Na	Ie
Golden Lion	1.00	1.50	2.95	1.50	1.00	Ie	Na	Ie

Casgliadau ac argymhellion

Yn gyffredinol, roedd tua hanner y safleoedd a arolygwyd gennym yn cynnal rhyw fath o ymgyrch i hyrwyddo diodydd alcoholig. Mae'n amlwg bod ymgyrchoedd hyrwyddo anghyfrifol, sy'n rhoi cymhelliant i unigolion yfed mwy o alcohol, yn gyffredin yn economi'r nos ac nad ydynt wedi'u cyfyngu i leiafrif bach o safleoedd trwyddedig. Canfu ein harolwg lawer o ymgyrchoedd hyrwyddo ar ffurf cynigion 'dwy ddiod am un' a 'thair am un' a chynigion 'hollgynhwysol' lle y gall unigolion yfed faint a fynnant o alcohol am un tâl. Mae hyn yn wahanol iawn i'r nifer lai o ymgyrchoedd hyrwyddo diodydd di-alcohol a nodwyd. Yn wir cafwyd weithiau fod alcohol yn rhatach na'r ddiod ysgafn rataf a oedd ar gael.

Mae'n debyg bod y canfyddiadau hyn yn berthnasol i drefi a dinasoedd ledled Cymru a Lloegr, yn enwedig o gofio bod nifer o ymgyrchoedd hyrwyddo yn cael eu cynnal gan safleoedd sy'n rhan o gadwyni sy'n cwmpasu'r DU gyfan ac sydd â pholisïau prisio a marchnata cenedlaethol.

Tynnwyd sylw at lefelau uchel o drais sy'n gysylltiedig ag alcohol yn economi'r nos yn yr adroddiad hwn, yn ogystal â rhai mentrau cadarnhaol yng Nghymru sy'n ceisio mynd i'r afael â hyn. Mae llawer o bobl yn mwynhau nosweithiau diogel, dihelynt allan wrth yfed alcohol. Ar ben hynny, mae manteision amlwg o ran adfywio trefol a datblygu gweithgareddau hamdden gyda'r nos. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydbwyso'r manteision hyn â chydnabod goblygiadau ehangach argaeledd cyffredinol alcohol rhad o ran iechyd y cyhoedd a mynd i'r afael â hwy.

Fel arfer lle y ceir lefelau uchel o oryfed mewn pyliau, ceir lefelau uchel cyfatebol o broblemau iechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae unigolion sy'n yfed mwy na'r canllawiau a argymhellir yn llawer mwy tebygol o ddatblygu problemau iechyd hirdymor, gan gynnwys clefyd yr iau a chanser y geg, y bibell fwyd, y coluddyn a'r fron.[32] Felly nid yn unig y gall alcohol rhad ac ymgyrchoedd hyrwyddo anghyfrifol yn economi'r nos sy'n cymell pobl i yfed mwy arwain at achosion o droseddu ac anafiadau personol, gan greu canol trefi a dinasoedd a ystyrir bellach yn lleoedd peryglus gan 45% o oedolion yng Nghymru, ond, yr un mor bwysig, maent yn cynyddu niwed i iechyd y cyhoedd. Yn Ysbyty Treforys yn Abertawe, er enghraifft, amcangyfrifwyd bod alcohol bellach yn cyfrif am 10% o'r holl dderbyniadau i'w adran damweiniau ac achosion brys, ffigur sy'n codi i 40-50% ar y penwythnos.[33] Rhyngddynt derbyniodd dau brif ysbyty Abertawe, sef Treforys a Singleton, 6,925 o achosion brys yn gysylltiedig ag alcohol yn ystod y cyfnod 2002-2008. Yn yr un modd, yn Ysbyty Maelor Wrecsam dros yr un cyfnod cafwyd 4,105 o dderbyniadau, tra cafwyd 5,828 o dderbyniadau i Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd, y ffigur uchaf ar gyfer unrhyw uned damweiniau ac achosion brys yng Nghymru.[34]

Lansiodd y diwydiant diodydd ei Ymgyrch Yfed yn Gallach yn 2009 i geisio mynd i'r afael â phroblem goryfed mewn pyliau ymhlith oedolion ifanc. 'Why let the good times go bad?' oedd ei neges. Er hynny, mae'r ymgyrch hon yn un gwbl wirfoddol, sy'n golygu nad yw'r rhai sy'n gwrthod cymryd rhan ynddi yn cael eu cosbi. Canfuwyd nad oedd 40% o'r safleoedd a gynhwysir yn ein harolwg yn arddangos unrhyw negeseuon yfed yn synhwyrol gweladwy (megis negeseuon 'yfwch yn gyfrifol', 'deall eich unedau' a 'peidiwch yfed a gyrru'). Mae hyn yn arbennig o siomedig o gofio bod o leiaf rai o'r safleoedd hyn hefyd yn cynnig disgowntiau sylweddol ar ddiodydd alcoholig. Gellir dadlau hefyd fod negeseuon sy'n annog defnyddwyr i yfed yn 'gyfrifol' yn rhy oddrychol, am y byddant yn golygu pethau gwahanol i bobl wahanol. Dylai fod yn ofynnol rhoi gwybodaeth benodol i ddefnyddwyr am unedau ac iechyd yn y man gwerthu. Mae'n amlwg bod angen newid y ddeddfwriaeth, yn hytrach na pharhau i ddibynnu ar ewyllys da'r diwydiant diodydd er mwyn rhoi

gwybodaeth gyson a phriodol am iechyd i'r cyhoedd.

Bydd côd ymarfer gorfodol y Swyddfa Gartref, a gyflwynir o Ebrill 2010 ymlaen, yn rhwystro rhai o'r ymgyrchoedd hyrwyddo anghyfrifol hyn ond nid pob un. Mae Alcohol Concern yn cefnogi'n fras y côd, ond gan fod y diwydiant diodydd yn dal heb ei reoleiddio'i hunan yn effeithiol, rydym o blaid cryfhau'r côd i rwystro ymgyrchoedd hyrwyddo o bob math sy'n annog goryfed.

Wrth gwrs, am fod safleoedd all-drwydded, yn enwedig archfarchnadoedd, bellach yn gwerthu alcohol rhad ac yn cynnig mwy na'r disgownt arferol ar ddiodydd alcohol, mae safleoedd mewndrwydded i ryw raddau wedi gorfod lleihau eu prisiau er mwyn cystadlu. Mae Alcohol Concern yn cydnabod na fydd gwahardd ymgyrchoedd hyrwyddo anghyfrifol mewn safleoedd mewndrwydded yn unig yn cael fawr o effaith ac y gallai mewn gwirionedd annog unigolion i yfed mwy gartref cyn mynd allan gyda'r nos[35] oni chyflwynir hefyd fesurau sy'n targedu'n benodol yr arfer o werthu alcohol rhad mewn safleoedd all-drwydded, yn enwedig gweithredu isafswm pris o 50c yr uned.

Heb newidiadau sylweddol a dewr, bydd unigolion a chymdeithas yn parhau i gyfrif cost ymgyrchoedd hyrwyddo anghyfrifol ac yfed gormodol. Felly mae Alcohol Concern yn gwneud yr argymhellion penodol canlynol:

Argymhelliad 1

Gan gydnabod bod y cynnydd yn y camddefnydd o alcohol yn broblem iechyd y cyhoedd, er mwyn galluogi awdurdodau trwyddedu i roi sylw priodol i'r mater hwn, mae angen nodi diogelu a gwella anghenion iechyd y cyhoedd fel pumed amcan yn Neddf Trwyddedu 2003. Bydd diwygio'r Ddeddf i ystyried lefelau yfed niweidiol mewn cymunedau lleol a lefelau cysylltiedig o forbidrwydd a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn rhoi cryn hwb i ymdrechion i leihau'r niwed hwn.

Argymhelliad 2

Mae arolwg Alcohol Concern wedi canfod bod ymgyrchoedd hyrwyddo alcohol anghyfrifol a allai annog pobl i yfed mwy yn eithaf cyffredin yn economi'r nos. Mae angen tynhau côd gorfodol y Swyddfa Gartref er mwyn rhwystro'n effeithiol ymgyrchoedd hyrwyddo o bob math sy'n hybu goryfed. Bydd hyn yn lleihau troseddau ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol, a niwed i iechyd cyhoeddus, a hefyd yn annog safleoedd i gystadlu ar sail cyfleusterau, adloniant ac awyrgylch yn hytrach na phris.

Argymhelliad 3

Am ei bod yn bosibl y bydd unrhyw gyfyngiadau eraill ar werthiannau mewndrwydded (*on-trade*) yn arwain at gynnydd mewn gwerthiannau all-drwydded (*off-trade*), a allai gynyddu lefelau yfed yn y cartref, mae angen pennu isafswm pris am uned o alcohol, sef 50c, ar gyfer diodydd a werthir mewn safleoedd mewndrwydded ac all-drwyddedd ledled Cymru a Lloegr. Byddai hyn yn dileu rhai o'r ymgyrchoedd hyrwyddo mwyaf anghyfrifol, gan gynnwys yr arfer o gynnig mwy na'r disgownt arferol ar ddiodydd mewn archfarchnadoedd a siopau diodydd, ond heb gael fawr ddim effaith ar gost yfed yn achos yfwyr cymedrol. Dengys ymchwil y byddai codi o leiaf 50c fesul uned yn cynyddu'r gost i yfwyr cymedrol 23c yr wythnos yn unig, ond gallai arbed £1.37 biliwn o ran costau gofal iechyd dros 10 mlynedd. Yng Nghymru, byddai hyn yn cyfateb i arbedion gwerth £79 miliwn dros 10 mlynedd.

Argymhelliad 4

Nid yw'r trefniadau gwirfoddol sydd gennym ar hyn o bryd yn sicrhau bod gwybodaeth ddigonol am unedau ac iechyd i'w gweld lle y gwerthir alcohol. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru lobïo'r llywodraeth yn San Steffan i sefydlu ardoll ar y diwydiant diodydd i'w throsglwyddo i gorff hybu iechyd hollol annibynnol. Dylai'r corff hwn, a fyddai'n atebol i Lywodraeth Cynulliad Cymru, yr Adran Iechyd a'r Swyddfa Gartref, lunio'r negeseuon ac ymgyrchoedd iechyd ac ymwybyddiaeth y mae angen i ddefnyddwyr eu gweld. Dylid gorfodi'r diwydiant i ddangos y negeseuon hyn sy'n cynnwys gwybodaeth am iechyd ac unedau ar ei holl gynnyrch a ble bynnag y gwerthir alcohol. Bydd hyn yn helpu i wella dealltwriaeth defnyddwyr o unedau a rhoi cyngor cyson iddynt am lefelau yfed diogel, gan helpu i newid y diwylliant o 'yfed i feddwi'.

Argymhelliad 5

Os na ellir gwneud rhagor un fuan i ymdrin â hyrwyddo alcohol yn anghyfrifol ledled Cymru a Lloegr a phennu isafswm pris, mae Alcohol Concern o blaid cymryd camau i ddatganoli'r pwerau angenrheidiol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cyfeiriadau

1 Ysgol Iechyd ac Ymchwil Gysylltiedig, Prifysgol Sheffield (2009), *Model-based appraisal of alcohol minimum pricing and off-licensed trade discount bans in Scotland: A Scottish adaptation of the Sheffield Alcohol Policy Model version 2*.

2 Herring, R., Berridge, V. a Thom, B (2008), *Binge drinking: an exploration of a confused concept* Journal of Epidemiology and Community Health, 62, tudalennau476-479.

3 Scottish Health Action on Alcohol Problems (2008), *Alcohol: price, policy and public health,* Caeredin, SHAAP.

4 Ibid.

5 Ffeithlen Alcohol Concern (2206), *Health impacts of alcohol.*

6 Matthews, K., Shepherd, J. a Sivarajasingham, V. (2006), *Violence-related injury and the price of beer in England and Wales*, Applied Economics, 38, tudalennau 661-670.

7 Sefydliad Iechyd y Byd: Ewrop (2004), *What are the most effective and cost-effective interventions in alcohol control?* http://www.euro.who.int/document/E82969.pdf (defnyddiwyd 7/12/09).

8 Gweler Coates, S. (2008) *MPs call for 'happy hour' ban*, http://www.timesonline.co.uk/tol/news/politics/article5119821.ece (defnyddiwyd 7/12/09).

9 Kuo, M. Wechsler, H., Greenberg, P. a Lee, H. (2003) *The marketing of alcohol to college students: the role of low prices and special promotions*, American Journal of Preventive Medicine, 25, tudalennau 204-11.

10 Christine, J., Fisher, D., Kozup, J.C., Smith, S., Burton, S. a Creyer, E.H. (2001) *The effects of bar-sponsored alcohol beverage promotions across binge and nonbinge drinkers*, Journal of Public Policy and Marketing, 20, tudalennau 240-53.

11 Canolfan Iechyd Cymru a Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (2009), *Proffil o alcohol ac iechyd yng Nghymru* Caerdydd, Canolfan Iechyd Cymru.

12 Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009), *Welsh health survey 2008: initial headline results*, Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

13 Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008), *Prif Swyddog Meddygol Cymru - adroddiad blynyddol 2007*, Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

14 Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru, (2006) *Addressing alcohol misuse issues*.

15 Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008), *Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008-2018*, Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

16 Eldridge, A. a Roberts, M. (2008), *A comfortable night out? Alcohol, drunkenness and inclusive town centres*, Area, 40 (3), tudalennau 365-374.

17 Hough, M. a Hunter, G. (2008), *The 2003 Licensing Act's impact on crime and disorder: an evaluation*, Criminology and Criminal Justice, 2008 (8), tudalennau 239-260.

18 Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (2007), *Arweiniad a gyhoeddwyd o dan adran 182 Deddf Trwyddedu 2003*, Llundain, DCMS.

19 Babb, P. (2007), *Violent crime, disorder and criminal damage since the introduction of the Licensing Act 2003: Home Office On-line Report 16/07*, Llundain, Y Swyddfa Gartref.

20 Department of Health and Home Office (2007) *Safe. Sensible. Social. The next steps in the National Alcohol Strategy*, Llundain, Yr Adran Iechyd a'r Swyddfa Gartref.

21 Casglwyd 10/09/2009 gan YouGov ar ran Alcohol Concern. Mae ar gael ar gais gan Alcohol Concern.

22 Hughes, K., Anderson, Z., Morleo, M. a Bellis, M.A. (2008), *Alcohol, nightlife and violence: the relative contributions of drinking before and during nights out to negative health and criminal justice outcomes*, Addiction, 103(1), tudalennau 60-65.

23 Hadfield, P., Lister, S. a Traynor, P. (2009), *'This town's a different town today': policing and regulating the night-time economy*, Criminology and Criminal Justice, 9, tudalennau 465-485.

24 Y Swyddfa Gartref (2009), Safe. Sensible. Social. *Selling Alcohol Responsibly: A Consultation on the New Code of Practice for Alcohol Retailers*, Llundain, Y Swyddfa Gartref.

25 Ibid.

26 Ymateb Alcohol Concern i *Safe. Sensible. Social. Selling Alcohol Responsibly: A Consultation on the New Code of Practice for Alcohol Retailers*. Mae copïau ar gael gan Alcohol Concern.

27 Alcohol Concern (2009), *Message on a bottle: Does the public have enough information about what they are drinking?* Mae copïau ar gael gan Alcohol Concern.

28 Op.cit. Ysgol Iechyd ac Ymchwil Gysylltiedig, Prifysgol Sheffield (2009).

29 Brennan A., Purshouse R, Taylor K a Rafia R, (2008), *Independent review of the effects of pricing and promotion: Part B. Modelling the potential impact of pricing and promotion policies for alcohol in. Results from the Sheffield Alcohol Policy Model version 2008 (1-1).*

30 Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008), *Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008-2018*, Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

31 Ibid.

32 Cancer Research UK (2008) *Alcohol and cancer*, ar gael yn http://www.cancerresearchuk.org (defnyddiwyd 7/12/09).

33 Brindley, M. (2009) *Booze culture putting huge strain on our health services*, http://www.walesonline.co.uk/news/health-news/2009/12/16/booze-culture-putting-huge-strain-on-our-health-services-91466-25400487/ (defnyddiwyd 02/02/10).

34 Ffigurau gan Atebion Iechyd Cymru a roddwyd i Alcohol Concern trwy swyddfa Chris Franks AC.

35 Op.cit. Hughes ac eraill (2008).

Cyfri'r Gost

Hyrwyddo alcohol yn anghyfrifol yn economi'r nos yng Nghymru

Alcohol Concern, 64 Leman Street,
Llundain, E1 8EU.

Ffôn: 020 7264 0510
Ffacs: 020 7488 9213
E-bost: contact@alcoholconcern.org.uk
Gwefan: www.alcoholconcern.org.uk

Alcohol Concern Cymru, Sophia House,
28 Cathedral Road, Caerdydd, CF11 9LJ

Ffôn: 029 2066 0248
Ffacs: 029 2066 0249
E-bost: acwales@alcoholconcern.org.uk
Gwefan: www.alcoholconcern.org.uk

Alcohol Concern
Meddwl yn Gall am Alcohol